

## **Cais gan Abergelli Power Limited ar gyfer Prosiect Pŵer Abergelli**

### **Cwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio a cheisiadau am wybodaeth (ExQ1)**

#### **Cyhoeddwyd ar 17 Hydref 2018**

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu cwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio (AA) a cheisiadau am wybodaeth – ExQ1. Yn ôl yr angen, mae amserlen yr Archwiliad yn galluogi'r AA i gyhoeddi rownd arall o gwestiynau ysgrifenedig maes o law. Os gwneir hyn, cyfeirir at y rownd bellach o gwestiynau fel ExQ2.

Mae'r cwestiynau wedi'u trefnu gan ddefnyddio fframwaith yn seiliedig ar faterion, sy'n deillio o'r Asesiad Cyntaf o'r Prif Faterion a ddarparwyd fel Atodiad B i lythyr Rheol 6, dyddiedig 12 Medi 2018. Ychwanegwyd cwestiynau at y fframwaith o faterion a amlinellwyd yno wrth iddynt godi o sylwadau ac i fynd i'r afael â'r asesiad o'r cais yn erbyn polisiau perthnasol.

Mae Colofn 2 y tabl y dynodi pa Bartion â Buddiant ac unigolion eraill y mae pob cwestiwn wedi'i gyfeirio atynt. Byddai'r AA yn ddiolchgar pe gallai pob unigolyn a enwir ateb yr holl gwestiynau sydd wedi'u cyfeirio atynt, gan roi ymateb sylweddol neu nodi nad yw'r cwestiwn yn berthnasol iddynt am reswm. Nid yw hyn yn atal unigolyn nad yw cwestiwn wedi'i gyfeirio ato/ati rhag ateb y cwestiwn hwnnw os yw'n berthnasol i'w fuddiannau/buddiannau.

Mae gan bob cwestiwn rif cyfeirnod unigryw sy'n dechrau gydag 1 (sy'n dynodi ei fod o ExQ1), ac yna rhif y mater a rhif y cwestiwn. Er enghraifft, mae'r cwestiwn cyntaf ynghylch materion ansawdd aer ac allyriadau wedi'i nodi fel C1.1.1. Pan fyddwch yn ateb cwestiwn, dechreuwch eich ateb drwy ddyfynnu'r rhif cyfeirnod unigryw.

Os ydych yn ymateb i nifer fach o gwestiynau, bydd atebion mewn llythyr yn ateb y gofyn. Os ydych yn ateb nifer fawr o gwestiynau, byddai o gymorth i'r AA pe byddech yn defnyddio tabl wedi'i seilio ar yr un hwn i drefnu eich ymatebion. Mae fersiwn o'r tabl hwn y gellir ei haddasu ym Microsoft Word ar gael ar gais gan dîm yr achos: cysylltwch ag [Abergelli.Power@pins.gsi.gov.uk](mailto:Abergelli.Power@pins.gsi.gov.uk) a rhowch Abergelli Power yn llinell pwnc eich e-bost.

Dylai ymatebion gael eu derbyn erbyn **Dyddiad cau 1: Dydd Gwener 9 Tachwedd 2018**

## Byrfoddau sy'n cael eu defnyddio

<b>DC2008</b>	<i>Deddf Cynllunio 2008</i>	<b>LIR</b>	<i>Adroddiad ar yr Effaith Leol</i>
<b>Erth</b>	<i>Erthygl</i>	<b>ACLI</b>	<i>Awdurdod Cynllunio Lleol</i>
<b>DCT 1981</b>	<i>Deddf Caffael Tir 1981</i>	<b>MP</b>	<i>Model Darparu (yn y Gorchymyn Modelau Darparu)</i>
<b>BoR</b>	<i>Llyfr Cyfeirio</i>	<b>Gorchymyn</b>	<i>Gorchymyn Cynllun Seilwaith (Modelau Darparu) 2009</i>
		<b>MP</b>	
<b>CG</b>	<i>Caffaeliad Gorfodol</i>	<b>NPS</b>	<i>Datganiad Polisi Cenedlaethol</i>
<b>CPO</b>	<i>Gorchymyn Prynu Gorfodol</i>	<b>NSIP</b>	<i>Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol</i>
<b>DCO drafft</b>	<i>Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft</i>	<b>G</b>	<i>Gofyniad</i>
<b>EM</b>	<i>Memorandwm Esboniadol</i>	<b>SI</b>	<i>Offeryn Statudol</i>
<b>DA</b>	<i>Datganiad Amgylcheddol</i>	<b>YG</b>	<i>Ysgrifennydd Gwladol</i>
<b>AA</b>	<i>Awdurdod Archwilio</i>	<b>TP</b>	<i>Meddiant Dros Dro</i>
<b>CDLI</b>	<i>Cynllun Datblygu Lleol</i>		

## Llyfrgell yr Archwiliad

Mae cyfeiriadau yn y cwestiynau hyn sydd mewn cromfachau sgwâr (e.e. [APP-010]) at ddogfennau sydd wedi'u rhestru yn Llyfrgell yr Archwiliad. Gellir gweld Llyfrgell yr Archwiliad trwy'r ddolen ganlynol:

[Llyfrgell yr Archwiliad](#)

Caiff ei diweddarw wrth i'r Archwiliad fynd rhagddo.

## Dyfynnu Cwestiynau

Dylai cwestiynau yn y tabl hwn gael eu dyfynnu fel a ganlyn:

Cyfeirnod y cwestiwn: cyfeirnod y mater: rhif y cwestiwn, e.e. mae ExQ1.0.1 yn cyfeirio at gwestiwn 1 yn y tabl hwn.

ExQ1	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
1.0	<b>Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol</b>	
1.0.1.	Yr Ymgeisydd a Dinas a Sir Abertawe	<p><b>Ceisiadau cynllunio ar gyfer cysylltiadau nwy a thrydan:</b> Dywed y Datganiad Cynllunio [APP-007] ym mharagraff 1.1.5:</p> <p><i>"Ar wahân, bydd APL yn ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer y Cysylltiad Nwy dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'r Cysylltiad Trydan dan naill ai Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu fel datblygu a ganiateir dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995."</i></p> <p>Beth yw statws y ceisiadau hyn, ar hyn o bryd?</p>
1.0.2.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Datganiad Cynllunio [APP-007] Tabl 3-1 (nid yw'n cynnwys allweddol ar gyfer 3 seren), Tabl 3-3 y DA [APP-042] a Thabl 2 y DCO drafft [APP-014]:</b></p> <p>A all yr Ymgeisydd esbonio pam y mae Paramedrau Asesu Tablau 3-1 a 3-3 yn wahanol i Dabl 2 yn y DCO drafft?</p>
1.0.3.	Yr Ymgeisydd a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)	<p><b>Oriau gweithredu:</b></p> <p>Dywed y DA [APP-042] ym mharagraff 6.4.37:</p> <p><i>"Mae Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu yn ffatri penllanw ac felly bydd yn gweithredu yn ystod cyfnodau o alw uchel am ynni yn unig. Felly, disgwylir i'r Cyfarpar Cynhyrchu weithredu am 1,500 awr y flwyddyn, fel</i></p>

ExQ1	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		<p><i>arfer, wedi'i amcangyfrif fel cyfartaledd treigl dros gyfnod o 5 mlynedd, ond gallai weithredu am hyd at uchafswm o 2,250 awr y flwyddyn, ar y mwyaf yn realistig ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol. Caiff uchafswm yr oriau y gall y ffatri weithredu ei amlinellu yn Nhrwydded Amgylcheddol y safle, ac ni ellir rhagori ar y cyfnod gweithredu hwn."</i></p> <p>Lle yn y DCO drafft [APP-014] y caiff ei sicrhau na fydd gweithrediad y generaduron tyrbinau nwy yn rhagori ar 1500 awr mewn unrhyw flwyddyn galendr?</p> <p>Sut y bwriedir cyfrifo cyfartaledd treigl yr oriau gweithredu ym mhob un o'r pum blwyddyn calendr cyntaf ar waith?</p>
1.0.4.	Yr Ymgeisydd a Dinas a Sir Abertawe	<p><b>Strategaeth datgomisiynu Gofyniad 27 y DCO drafft [APP-014]:</b></p> <p>Mae gan y prosiect oes ddylunio o 25 mlynedd a chaiff hyn ei ddatgan drwy gydol y DA [APP-042], ac mae nifer o'r cynlluniau rheoli [AOO-036] wedi'u hysgrifennu i bara oes y prosiect. Yn ogystal, dyluniwyd y prosiect ar gyfer yr oes ddylunio hon, er enghraifft o ran gofynion arafu dŵr wyneb.</p> <p>A yw'r Ymgeisydd o'r farn y dylai fod gofyniad yn cyfyngu ar hyd oes y Gorchymyn hwn ac, os na, rhowch resymau?</p>

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
1.0.5.	Yr Ymgeisydd a Dinas a Sir Abertawe	<p><b>Bond ar gyfer Datgomisiynu'r Gwaith:</b></p> <p>Mae Dinas a Sir Abertawe [RR-022] yn credu y dylid darparu bond i gwmpasu cost datgomisiynu'n llawn, i'w ad-dalu ar ôl i'r elfen hon gael ei chwblhau, er mwyn sicrhau bod cyllid ar gael i ddatgymalu/ ddatgomisiynu'r prosiect yn y dyfodol.</p> <p>A yw'r Ymgeisydd yn bwriadu rhoi bond tebyg yn ei le? Os na, rhwch resymau.</p>
1.0.6.	Yr Ymgeisydd a Dinas a Sir Abertawe	<p><b>Costau cyflawni, monitro a gorfodi:</b></p> <p>Yr Awdurdod Cynllunio Lleol, sef Dinas a Sir Abertawe [RR-022], fydd yn gyfrifol am gyflawni, monitro a gorfodi unrhyw ofynion sy'n cael eu gosod ar y datblygiad, yn ogystal ag unrhyw rwymedigaethau cynllunio. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer codi tâl yn y DCO drafft [APP-014].</p> <p>Beth yw barn yr Ymgeisydd am y cynnig hwn?</p>
1.0.7.	Dinas a Sir Abertawe	<p><b>Gwrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer tir yn gyfagos at orllewin y safle:</b></p> <p>Dywed paragraff 3.7.5 y Datganiad Cynllunio [APP-007]:</p> <p><i>"Ym mis Hydref 2015, gwrthodwyd caniatâd cynllunio ar gyfer "Cyfleuster cynhyrchu trydan brys wrth gefn yn cynnwys: unedau generadu disel"</i></p>

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
		<p><i>modiwlaid modern (cyfanswm o hyd at 14), newidyddion, tanciau storio disel, triniaeth ffiniau gan gynnwys sgrinio acwstig, gwelliannau i'r fynedfa a gwaith cysylltiedig" ar dir yn gyfagos at orllewin Safle'r Prosiect (gweler ffin y cais yn Ffigur 3-5) (Cyf CCS: 2015/1716). Gwrthodwyd y cais ar y sail na fyddai manteision cadarnhaol y datblygiad, ym marn y Cyngor, yn gorbwyso'r niwed gweledol y byddai'n ei achosi i gefn gwlad."</i></p> <p>A all Dinas a Sir Abertawe roi rhesymau manwl dros wrthod y cais cynllunio hwn?</p>
1.0.8.	Dinas a Sir Abertawe	<p><b>CDLI Dinas a Sir Abertawe hyd at 2025:</b></p> <p>Cyflwynodd Dinas a Sir Abertawe y CDLI Adnau i Weinidogion Llywodraeth Cymru i'w archwilio'n annibynnol ar 28 Gorffennaf 2017. Ar ôl ei dderbyn yn ffurfiol ar 4 Awst 2017, penododd Gweinidogion Cymru Arolygwyr i gynnal yr Archwiliad ac asesu cadernid y CDLI.</p> <p>Dechreuodd gwrandawiadau'r Archwiliad ar 6 Chwefror 2018 a'u cynnal hyd ar ddiwedd mis Mawrth 2018 [APP-007].</p> <p>Beth yw statws Archwiliad y CDLI ar hyn o bryd, a phryd mae Dinas a Sir Abertawe yn disgwyl mabwysiadu'r CDLI?</p>
1.0.9.	Yr Ymgeisydd a CNC	<p><b>Trwydded Amgylcheddol (EP):</b></p> <p>a) Beth yw statws cais ar brosiect ar gyfer Trwydded Amgylcheddol ar hyn o bryd?</p>

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
		<p>b) A yw CNC yn ymwybodol o unrhyw reswm pam na ddylai Trwydded Amgylcheddol gael ei rhoi ar gyfer y prosiect, fel y disgrifir yn y DA [APP-042]?</p> <p>c) A yw CNC yn ymwybodol o unrhyw reswm pam y byddai Trwydded Amgylcheddol ar gyfer y prosiect yn cael ei rhoi yn ddarostyngedig i amodau neu gyfyngiadau gweithredol nad ydynt wedi'u rhagweld yn y DA?</p> <p>d) A oes angen unrhyw reolaethau ychwanegol yn y DCO drafft [APP-014] er mwyn sicrhau na ragorir ar allyriadau aer 'Amlen Rochdale', fel y'u haseswyd yn y DA (gweler paragraff 6.4.35 [APP-042]), a bod gwerthoedd cyfyngiadau allyriadau IED/EPR a meincnodau perthnasol yn cael eu bodloni?</p> <p>e) A yw CNC o'r farn y bydd y broses EP yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn foddhaol?</p>
1.0.10.	Yr Ymgeisydd	<p><b>CVau Manwl:</b></p> <p>A all yr Ymgeisydd ddarparu CVau manwl ar gyfer prif awduron pob pennod asesu yn y DA [APP-042] a phrif awdur gweddill y DA?</p>
1.0.11.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Cyfarwydded 2014/52/EU yr UE:</b></p> <p>Dywed y DA [APP-042] ym mharagraff 2.2.1 bod Cyfarwydddeb y Comisiwn Ewropeaidd 2014/52/EU Mai 2014 yn berthnasol i'r prosiect.</p>

ExQ1	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		A all yr Ymgeisydd ymhelaethu ar sut mae'n credu y mae'n berthnasol i'r prosiect?
1.0.12.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Cynllunio a'r iaith Gymraeg:</b></p> <p>Dywed paragraff 2.10.25 y DA [APP-042]:</p> <p><i>"..... Ystyriwyd defnydd priodol o'r iaith Gymraeg trwy gydol yr ymgynghoriad cyn gwneud cais ac wrth baratoi'r cais ar gyfer DCO."</i></p> <p>A all yr Ymgeisydd ddarparu rhagor o fanylion am sut yr ystyriwyd yr iaith Gymraeg yn y cais hwn?</p>
1.0.13.	Yr Ymgeisydd a Dinas a Sir Abertawe	<p><b>Seilwaith Gwyrdd:</b></p> <p>Ym mharagraff 2.11.58 y DA [APP-042], dywed:</p> <p><i>"Mae Polisi Drafft ER 2 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad geisio gynnal neu wella rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol y sir."</i></p> <p>Sut mae'r Ymgeisydd yn credu y mae'n cydymffurfio â pholisi drafft ER 2?</p> <p>Beth yw barn Dinas a Sir Abertawe?</p>
1.0.14.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Man gollwng Afon Llan/Lliw ac Afon Lluchwr:</b></p> <p>Ym mharagraff 3.3.5 y DA [APP-042], dywed:</p>



ExQ1	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		<p><i>"O fewn Safle'r Prosiect, ceir tardellau a'u nentydd a ffosydd draenio cysylltiedig sy'n gollwng i Afon Llan (gweler ffigur 3.1). Mae Afon Llan yn cysylltu ag Afon Lliw ac Afon Lluchwr, sy'n gollwng i Fôr Hafren."</i></p> <p>Ym mharagraff 9.5.20 y DA, dywed:</p> <p><i>"Mae Afon Llan yn cysylltu ag Afon Lliw ac Afon Lluchwr, sy'n gollwng i Fae Caerfyrddin."</i></p> <p>A all yr Ymgeisydd gadarnhau bod y 3 chwrws dŵr yn gollwng i Fae Caerfyrddin, fel y dangosir yn Ffigur 8.2 [APP-024]?</p>
1.0.15.	Yr Ymgeisydd a CNC	<p><b>Materion Gweithdrefnol:</b></p> <p>Mae paragraff 3.4.30 y DA [APP-042] yn datgan y bydd gan y gwaith cynhyrchu pŵer allbwn trydanol o 299MWe neu lai. Mae Atodlen 1 y DCO drafft [APP-014] yn datgan hyd at 299MWe.</p> <p>Dywed paragraff 3.4.31 y DA:</p> <p><i>"Bydd yn ofynnol i APL ddangos na fyddai'n bosibl i'r ffatri weithredu ragori ar 299 MWe, er mwyn cydymffurfio â'r IED sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ffatri hylosgi newydd sydd ag allbwn trydanol o 300 MW neu fwy fod wedi bodloni nifer o amodau a sicrhau bod lle ar gael i ddal a storio carbon."</i></p> <p>A oes unrhyw sefyllfa weithredu lle y gallai'r allbwn trydanol fod yn</p>

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
		<p>&gt;299MWe?</p> <p>A all yr Ymgeisydd a CNC gadarnhau y bydd EP (os caiff ei rhoi) yn adlewyrchu'r drefn weithredu hon a ddisgrifir yn y DA?</p>
1.0.16.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Rhif coll:</b></p> <p>Ym mharagraff 3.11.20 y DA [APP-042], mae'n ymddangos bod rhif ar goll?</p>
1.0.17.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Pryderon Amgylcheddol mewn Sylwadau Perthnasol (RRau):</b></p> <p>Mae Mr David Edwards, Mr Paul Northcote, Cyngorydd Ward Mawr, Peter Rasbridge, Ms Kirsty Dando Thomas, Mr Mark Adams, Ms Alyson Adams a Ms Claire Thatcher [RR-001, 003, 004, 005, 015, 016, 017 a 020], yn ôl eu trefn, yn mynegi pryderon ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llygredd sŵn;</li> <li>• Llygredd aer;</li> <li>• Bywyd gwyllt;</li> <li>• Llŵch;</li> <li>• Llain las;</li> <li>• Llifogydd;</li> <li>• Traffig adeiladu;</li> <li>• Yr effaith weledol; a'r</li> <li>• Manteision i bobl leol.</li> </ul> <p>A all yr Ymgeisydd ymateb i bob un o'r pryderon a fynegwyd yn yr RRau</p>

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
		hyn?
1.0.18.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Malltod Eiddo:</b></p> <p>Mae Ward Mawr [RR-004], Ms Kirsty Dando Thomas [RR-015] a Ms Alyson Adams [RR-017] i gyd yn mynegi pryderon ynghylch malltod eiddo.</p> <p>A all yr Ymgeisydd ymateb i'r pryderon hyn?</p>
<b>1.1.</b>	<b>Cynigion Amgen</b>	
1.1.1.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Asesiad Dichonolrwydd:</b></p> <p>Ym mharagraff 6.2.19 y Datganiad Cynllunio [APP-007], dywed yr Ymgeisydd yr edrychwyd ar "ystod o safleoedd".</p> <p>A all yr Ymgeisydd ddarparu cymhariaeth strategol, technegol ac amgylcheddol tabledig anhysbys addas o'r safleoedd hyn yn erbyn safle'r prosiect?</p>
1.1.2.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Cynigion Amgen Rhesymol:</b></p> <p>Sut mae'r Ymgeisydd wedi ystyried gofynion adran 14(1)d Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 ar yr asesiad o'r cynigion amgen rhesymol?</p>
1.1.3.	Yr Ymgeisydd	<b>Dewis Safle – Cyfeillion y Ddaear Abertawe [RR-007] a Peter</b>

<b>ExQ1</b>		
<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>	
		<p><b>Rasbridge [RR-005]:</b></p> <p>A all yr Ymgeisydd ymateb i'r pwyntiau a godwyd ynghylch dewis safle yn y Sylwadau Perthnasol hyn?</p>
<b>1.2.</b>	<b>Methodoleg yr Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)</b>	
1.2.1.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Tablau NTS 1 a 2 [APP-020]:</b></p> <p>A all yr Ymgeisydd ddarparu ffynhonnell ar gyfer y canllawiau "generig" hyn?</p>
1.2.2.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Dosbarthu'r effeithiau:</b></p> <p>Ym mharagraff 3.3.3 y NTS [APP-020], dywed: <i>"Yn gyffredinol, caiff effeithiau Mawr neu Gymedrol eu hystyried yn arwyddocaol"</i>.</p> <p>Ym mha achosion y cânt eu hystyried i beidio â bod yn arwyddocaol?</p>
1.2.3.	Yr Ymgeisydd, Dinas a Sir Abertawe a CNC	<p><b>Tabl 4-6 Prosiectau [APP-042] a ystyriwyd yn yr aseiad cronus:</b></p> <p>A yw Dinas a Sir Abertawe a CNC yn fodlon â'r rhestr hir o brosiectau yn Nhabl 4-6 y DA?</p> <p>A yw prosiectau 26 a 27 yn cyfeirio at gartrefi 750644 a 675490, yn ôl eu trefn?</p>

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
<b>1.3.</b>	<b>Caffael Gorfodol, Meddiant Dros Dro ac Ystyriaethau Eraill yn ymwneud â Thir neu Hawliau</b>	
1.3.1.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Michael Edwards [RR-011], Redisplay Ltd [RR-012], Wynne Watkins [RR-014] ac Abergelli Solar Ltd [RR-018]:</b></p> <p>A all yr Ymgeisydd fynd i'r afael â'r pwyntiau a dogwyd gan y pedwar Parti yr effeithir arnynt yn eu Sylwadau Perthnasol priodol?</p>
1.3.2.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Caffael Gorfodol (CA):</b></p> <p>Gofynnir i'r Ymgeisydd gwblhau'r Rhestr Gwrthwynebiadau atodedig gyda gwybodaeth am unrhyw wrthwynebiadau i'r cynigion caffael gorfodol yn y cais, a gwneud unrhyw gofnodion neu ddileu unrhyw gofnodion y mae'n credu y byddant yn briodol, gan ystyried y safbwyntiau a fynegwyd mewn sylwadau perthnasol a sylwadau ysgrifenedig, gan roi rhesymau am unrhyw ychwanegiadau neu ddileadau. (Gweler Atodiad A i'r ddogfen hon).</p> <p>Dylid diweddarau Atodiad A ar gyfer pob dyddiad cau yn ystod yr Archwiliad.</p>
1.3.3.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Meddiant dros dro:</b></p> <p>Gofynnir i'r Ymgeisydd gwblhau'r Rhestr Gwrthwynebiadau atodedig gyda gwybodaeth am unrhyw wrthwynebiadau i'r cynigion meddiant dros dro yn y cais, a gwneud unrhyw gofnodion neu ddileu unrhyw gofnodion y mae'n credu y byddant yn briodol, gan ystyried y safbwyntiau a fynegwyd mewn</p>

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
		sylwadau perthasol a sylwadau ysgrifenedig, gan roi rhesymau am unrhyw ychwanegiadau neu ddileadau. (Gweler Atodiad A i'r ddogfen hon).
1.3.4.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Ymgymmerwyr Statudol:</b></p> <p>Mae'r Llyfr Cyfeirio [AS-002] yn cynnwys nifer o Ymgymmerwyr Statudol sydd â buddiannau mewn tir. A all yr Ymgeisydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) Ddarparu adroddiad cynnydd ar drafodaethau â phob un o'r Ymgymmerwyr Statudol sydd wedi'u rhestru yn y Llyfr Cyfeirio, a rhoi amcangyfrif o'r amserlen ar gyfer dod i gytundeb â nhw? Dylid diweddarau Tabl 3 y Datganiad o Resymau [APP-010] ar bob un o ddyddiadau cau'r Archwiliad.</li> <li>b) Datgan a ragwelir unrhyw rwystr rhag sicrhau'r cytundebau hyn?</li> <li>c) Datgan p'un a amlygwyd unrhyw Ymgymmerwyr Statudol ychwanegol ers cyflwyno'r Llyfr Cyfeirio fel un o ddogfennau'r cais?</li> </ul>
1.3.5.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Datganiad Ariannu:</b></p> <p>Caiff yr Ymgeisydd ei atgoffa bod Arweiniad yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol sy'n gysylltiedig â'r gweithdrefnau Caffael Gorfodol (Medi 2013) yn datgan: Dylai Ymgeiswyr allu dangos bod cyllid digonol yn debygol o fod ar gael i alluogi'r Caffaeliad Gorfodol o fewn y cyfnod statudol ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud, ac yr ystyriwyd goblygiadau caffaeliad posibl o ran adnoddau yn deillio o hysbysiad malltod.</p> <p>Nid yw'r Datganiad Ariannu [APP-012] ym mharagraff 2.2.1 yn amlygu costau'r Caffaeliad Gorfodol ar wahân i gostau'r prosiect nac yn esbonio</p>

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
		sut y cyfrifwyd y ffigur ar gyfer costau'r Caffaeliad Gorfodol. Esboniwch gost ddisgwyliedig y Caffaeliad Gorfodol, sut y cyfrifwyd y ffigur hwn a sut caiff y costau hyn eu talu.
1.3.6.	Yr Ymgeisydd a Dinas a Sir Abertawe	<p><b>Cyllid:</b></p> <p>Mae'r DCO drafft [APP-014] yn cynnwys Erthygl 34 sy'n mynnu bod sicrwydd yn ei le ar gyfer costau Caffaeliad Gorfodol (mewn unrhyw swm i'w gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol) cyn y gall APL arfer unrhyw bwerau Caffaeliad Gorfodol.</p> <p>A yw Dinas a Sir Abertawe yn fodlon â geiriad Erthygl 34?</p>
1.3.7.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Cytundeb Cysylltu [APP-006][APP-009]:</b></p> <p>A all yr Ymgeisydd ddiweddarau'r sefyllfa mewn perthynas â chysylltiadau â seilwaith trydan a nwy y Grid Cenedlaethol?</p>
1.3.8.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Partïon yr effeithir arnynt:</b></p> <p>A all yr Ymgeisydd ddiweddarau Tabl 2 yn y Datganiad o Resymau [APP-010] ar bob dyddiad cau yn ystod yr Archwiliad?</p>
<b>1.4.</b>	<b>Ansawdd Aer ac Allyriadau</b>	

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
1.4.1.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Tabl 6-6 [APP-042]:</b></p> <p>Mae'r eitem gyntaf yn y Tabl yn cyfeirio at Adran 0?</p>
1.4.2.	CNC a'r Ymgeisydd	<p><b>Sefyllfa Waethaf:</b></p> <p>Dywed paragraffau 6.4.40 a 6.4.41 yn y DA [APP-042]:</p> <p><i>"O ran crynodiadau hirdymor (cymedrig blynyddol), byddai tybio gweithrediad llwyth llawn ar gyfer y flwyddyn yn afrealistig. Felly, amcangyfrifwyd yr effeithiau hirdymor trwy raddio'r canlyniadau ar gyfer gweithrediad llwyth llawn parhaus yn ôl yr amser gweithredu tebygol h.y.</i></p> <p><i>2,250 (cyfanswm yr oriau gweithredu)</i> <i>8,760 (cyfanswm yr oriau mewn blwyddyn) = 0.257".</i></p> <p>A yw CNC o'r farn bod y dull hwn yn briodol?</p> <p>Dywed paragraff 6.4.43 y DA:</p> <p><i>"Mae'r asesiad o'r crynodiadau cymedrig dyddiol sy'n berthnasol i'r asesiad ecolegol yn disgyn rhwng yr achosion ar gyfer crynodiadau tymor hir a thymor byr. Serch hynny, er mwyn sicrhau asesiad ceidwadol, caiff crynodiadau cymedrig dyddiol eu hasesu ar sail gweithrediad parhaus."</i></p> <p>Beth yw'r sefyllfa waethaf, ym marn yr Ymgeisydd, o ran "gweithrediad</p>



ExQ1	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		parhaus", 2,250 neu 1,500 awr y flwyddyn?
1.4.3.	CNC	<p><b>Modelu Effeithiau wrth Gychwyn a Chau i lawr:</b></p> <p>Dywed paragraff 6.4.44 y DA [APP-042]:</p> <p><i>"Nid yw'r cyfnodau cychwyn a chau i lawr yn mynnu asesiad penodol ar gyfer y Prosiect, a chaiff yr effeithiau yn ystod y cyfnodau hyn eu hystyried yn gadarn yn yr asesiad gan y 2,250 awr tybiedig o weithrediad llwyth llawn ar gyfer y ffatri h.y. uchafswm y gweithrediad blynyddol yn hytrach na'r oriau gweithredu arferol disgwylidig o 1,500 y flwyddyn."</i></p> <p>A yw CNC o'r farn bod y dull hwn yn briodol?</p>
1.4.4.	CNC a'r Ymgeisydd	<p><b>Asesiad o'r Llwyth Critigol:</b></p> <p>Dywed paragraff 6.4.76 y DA [ APP-042]:</p> <p><i>"Cynhaliwyd yr asesiad yn erbyn Llwythi Critigol yn unol ag AQTAG06 'Technical guidance on detailed modelling approach for an appropriate assessment for emissions to air' (Ref. 6.29). Fodd bynnag, dylid nodi nad yw hyn yn darparu cyngor terfynol ar ddehongli effeithiau tebygol newidiadau mewn ansawdd aer ar gynefinoedd gwahanol."</i></p> <p>Lle y darperir y cyngor terfynol ar ddehongli'r effeithiau ar ecosystemau?</p>
1.4.5.	CNC a Dinas a Sir Abertawe	<b>Iechyd Dynol:</b>

ExQ1	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		<p>Caiff effeithiau allyriadau awyrol gorsaf bŵer ar iechyd dynol eu cyflwyno yn Nhablau 6-33 a 6-34 y DA [APP-042]. Yn ei sylwadau perthnasol [RR-009], dywed Iechyd Cyhoeddus Lloegr ei fod yn fodlon na fydd y prosiect yn peri unrhyw risg sylweddol i iechyd dynol.</p> <p>A yw CNC a Dinas a Sir Abertawe yn fodlon â chasgliadau'r DA mewn perthynas ag iechyd dynol?</p>
1.4.6.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Effeithiau cronol:</b></p> <p>Dywed paragraff 17.3.3 y DA [APP-042]:</p> <p><i>"Mae canllawiau IEMA yn cydnabod dwy brif ffynhonnell effeithiau cronol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Effeithiau mewn-brosiect</b> – <i>Mae'r rhain yn digwydd pan effeithir ar un derbynnnydd gan fwy nag un ffynhonnell effaith sy'n codi o wahanol agweddau ar y Prosiect. Enghraifft o effaith ryng-brosiect fyddai pan effeithir ar breswylwr lleol gan lwch, sŵn ac aflonyddu ar draffig yn ystod cyfnod adeiladu cynllun, gan arwain at fwy o niwsans na phob effaith unigol ar ei phen ei hun; ac</i></li> <li>• <b>Effeithiau rhyng-brosiect</b> – <i>Mae'r effeithiau hyn yn digwydd o ganlyniad i nifer o ddatblygiadau blaenorol, presennol neu arfaethedig sy'n rhesymol ragweladwy, nad ydynt yn arwyddocaol yn unigol o bosibl, ond a allai greu effaith gronol arwyddocaol ar dderbynnnydd a rennir o'u hystyried gyda'i gilydd, a gallent gynnwys datblygiadau sydd ar wahân i'r Prosiect ac yn gysylltiedig â'r Prosiect."</i></li> </ul>

ExQ1	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		<p>Mae'r asesiad o effeithiau cronol ar gyfer y Prosiect yn dilyn y canllawiau fel y'u gosodwyd gan y Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (IEMA). Fodd bynnag, teitl pennawd 6.10 y DA yw:</p> <p><i>"Effeithiau Cronol ac Ar y Cyd"</i></p> <p>Sut mae effeithiau cronol ac ar y cyd yn gysylltiedig ag effeithiau mewn-brosiect a rhyng-brosiect?</p>
1.4.7.	Dinas a Sir Abertawe	<p><b>Effeithiau Adeiladu Cronol:</b></p> <p>Dywed paragraff 6.10.1 y DA [APP-042]:</p> <p><i>"Nid oes unrhyw ddatblygiadau eraill arfaethedig nac a ganiatawyd o fewn ardal yr astudiaeth a allai arwain at unrhyw effeithiau ar ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu. Fel y cyfryw, ni ddisgwylir unrhyw effeithiau adeiladu cronol â phrosiect arall."</i></p> <p>O ystyried y 34 prosiect a restrir yn Nhabl 4-6 y DA, a yw Dinas a Sir Abertawe yn cytuno â safbwynt yr Ymgeisydd?</p>
1.5.	<b>Sŵn a Dirgryniad</b>	
1.5.1.	Yr Ymgeisydd a Dinas a Sir	<b>Defnyddio Canllawiau'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol</b>

ExQ1	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
	Abertawe	<p><b>(NPPF) yng Nghymru:</b></p> <p>Dywed y DA [APP-042] ym mharagraff 7.3.41 (ac fe'i hailadroddir ym mharagraff 7.3.45 ar gyfer y Canllawiau Ymarfer Cynllunio ategol):</p> <p><i>"...nid yw'r NPPF yn uniongyrchol berthnasol yng Nghymru ond mae'n cynnig arweiniad sy'n berthnasol i'r Prosiect, yn enwedig o ran gwerthuso lefelau Lefel Effaith Niweidiol Ganfyddadwy Arwyddocaol (SOAEL) a Lefel Effaith Niweidiol Ganfyddadwy Isaf (LOAEL)".</i></p> <p>Pam mae'r Ymgeisydd yn credu ei bod hi'n briodol cymhwyso canllawiau'r NPPF i asesiad o sŵn yng Nghymru?</p> <p>Beth yw barn Dinas a Sir Abertawe?</p> <p>Mae'r AA yn nodi nad yw'r canllawiau NPPF yn cael eu cymhwyso mewn unrhyw benodau asesu eraill.</p>
1.5.2.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 11 – Dogfen Llywodraeth Cymru:</b></p> <p>Sut mae TAN 11 wedi cael ei ystyried yn yr Asesiad o Sŵn?</p>
1.5.3.	Yr Ymgeisydd a CNC	<p><b>Trwydded A1 y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol:</b></p> <p>Mae Tabl 7-4 y DA [APP-042] yn cyfeirio at Drwydded A1 y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. A fydd hon yn drwydded "Rheolau Safonol" neu "Wedi'i Theilwra"?</p>

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
1.5.4.	Yr Ymgeisydd a Dinas a Sir Abertawe	<b>Arolwg Sŵn Chwefror 2018:</b>  Ni lwyddodd arolwg Chwefror 2018 i gyrraedd NSR2 ac NSR3.  Beth yw barn Dinas a Sir Abertawe ynglŷn â hyn?
1.5.5.	Yr Ymgeisydd	<b>Croesgyfeiriad anghywir:</b>  Mae paragraff 7.7.6 y DA [APP-042] yn croesgyfeirio'n anghywir i baragraff 3.11.19. Dylai fod yn 3.11.21.
1.5.6.	Yr Ymgeisydd a Dinas a Sir Abertawe	<b>Tabl 7-25 y DA [APP-042]:</b>  Mae Tabl 7-25 yn disgrifio'r Crynodeb o Effeithiau Sŵn a Dirgryniad sy'n Codi yn ystod y Cyfnod Gweithredol ar gyfer NSR1-5.  Mae Tabl 3 Gofyniad 25 y DCO drafft [APP-014] yn cyfeirio at NSR 1, 4, 5 a 6 yn unig.  A all yr Ymgeisydd esbonio'r rheswm am hyn?  Beth yw barn Dinas a Sir Abertawe?

ExQ1	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
<b>1.6.</b>	<b>Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol</b> (gan gynnwys yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA))	
1.6.1.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Ardal Liniaru Ecolegol:</b></p> <p>Mae paragraff 4.3.1 Atodiad 3.4 y DA [APP-036] yn cyfeirio at "Ardal Liniaru Ecolegol", Gwaith Rhif 4, a ddangosir yn Ffigur 3.6c y DA [APP-024].</p> <p>A all yr Ymgeisydd gadarnhau bod y 3 elíps porffor, plannu coed brodorol, dolydd gwlyb a glaswelltir asidig, perthi gyda choed, plannu coetir a phyllau gwanhau yn cynrychioli graddau llawn yr Ardal Liniaru Ecolegol?</p>
1.6.2.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Ardal Liniaru Ecolegol:</b></p> <p>Dywed y DA ym mharagraff 5.6.1 [APP-042]:</p> <p><i>"Mae ardal wedi cael ei neilltuo o fewn ffin Safle'r Prosiect ar gyfer lliniaru ecolegol. Ymgynghorwyd ar leoliad ac arwynebedd yr ardal liniaru a fyddai'n ofynnol yn ystod yr ymgynghoriad Cam 2, a lluniwyd Cynllun Lliniaru Tirwedd ac Ecoleg (LEMP) amlinellol. Mae Strategaeth Lliniaru Tirwedd ac Ecoleg derfynol wedi cael ei pharatoi erbyn hyn i ddangos graddau'r mesurau lliniaru sy'n angenrheidiol fel y'i cyflwynir yn Atodiad 3.4."</i></p> <p>A all yr Ymgeisydd gyfeirio at ble yn y DCO drafft [APP-014] y mae'r ymrwymadau yn Atodiad 3.4 [APP-036] yn cael eu sicrhau'n benodol e.e. paragraff 1.1.4, mesurau lliniaru bioamrywiaeth, sgrinio; paragraff 1.1.6, cyfnod rheoli 25 mlynedd?</p>

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
e1.6.3.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Mesurau Lliniaru Ymgorfforedig:</b></p> <p>Ym mharagraff 2.4.2 yr NTS [APP-020] a rhannau penodol o bob pennod asesu yn y DA [APP-042], mae'r OCEMP, ODS, Uchder Stac, EMA, OLEMP ac OLEMS oll yn cael eu disgrifio fel Mesurau Lliniaru Ymgorfforedig.</p> <p>A all yr Ymgeisydd gadarnhau mai dyma yw eu safbwynt presennol?</p>
1.6.4.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Mesurau Lliniaru Ymgorfforedig:</b></p> <p>Dywed paragraff 3.11.1 y DA [APP-042]:</p> <p><i>"Mae mesurau lliniaru sydd naill ai'n ymhlyg yn nyluniad y Prosiect neu ei adeiladwaith a'i weithrediad trwy fesurau rheoli safonol a ddefnyddir fel mater o drefn, fel gweithio o fewn canllawiau arfer gorau yn ystod y cyfnod adeiladu, yn cael eu hadnabod fel mesurau lliniaru ymgorfforedig. At ddibenion y DA hwn, tybiwyd bod y mesurau lliniaru ymgorfforedig hyn ar waith o'r cychwyn, gan y byddai'r Prosiect yn annhebygol o gael caniatâd i ddechrau hebddynt. Felly, mae'r DA hwn wedi asesu effeithiau arwyddocaol tebygol y Prosiect, gan gynnwys mesurau lliniaru ymgorfforedig."</i></p> <p>A fyddai canfyddiadau'r Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol (NSER) [APP-066] yr un fath o hyd pe na byddai'r mesurau lliniaru hyn wedi cael eu hystyried yn yr asesiad?</p>
1.6.5.	Yr Ymgeisydd a Dinas a Sir	<b>Coed a pherthi:</b>

ExQ1	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
	Abertawe	<p>Dywed y DA ym mharagraff 2.11.63 [APP-042]:</p> <p><i>"Mae Polisi draft ER 11 yn datgan "fel arfer, ni chaniateir datblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol ar goed, coetiroedd a pherthi o amwynder cyhoeddus, gwerth treftadaeth naturiol/diwylliannol, neu sy'n darparu gwasanaethau ecosystem pwysig."</i></p> <p>Sut mae'r Ymgeisydd yn credu ei fod yn cydymffurfio â pholisi drafft ER 11?</p> <p>Beth yw barn Dinas a Sir Abertawe?</p>
1.6.6.	Dinas a Sir Abertawe a CNC	<p><b>Tabl 8-6 [APP-042] Defnydd o Ddata Arolwg 2014:</b></p> <p>A yw Dinas a Sir Abertawe a CNC yn fodlon ar y dadleuon a gyflwynwyd ar gyfer defnyddio data arolwg 2014 yn yr asesiad ecolegol?</p>
1.6.7.	CNC a'r Ymgeisydd	<p><b>Dyfarniadau Llys Cyfiawnder Ewrop ar Fesurau Lliniaru wrth Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:</b></p> <p>Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd Llys Cyfiawnder Ewrop benderfyniad yn achos <i>People Over Wind, Peter Sweetman v Coillte Teoranta (C-323/17)</i>. Roedd y dyfarniad yn cadarnhau na ellir ystyried mesurau lliniaru arfaethedig at ddibenion sgrinio o dan Reoliadau Cynefinoedd y Deyrnas Unedig, sy'n rhoi effaith i Gyfarwydddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd</p>



<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
		<p>(92/43/EEC) (paragraff 1.1.8 [APP-066].</p> <p>a) A oes gan CNC farn ynglŷn ag arwyddocâd y dyfarniadau hyn i NSER yr Ymgeisydd [APP-066]?</p> <p>b) Beth yw barn yr Ymgeisydd?</p>
1.6.8.	CNC a Dinas a Sir Abertawe	<p><b>Tabl 8.13 Sensitifrwydd Nodweddion Ecolegol [APP-042]:</b></p> <p>A yw CNC a Dinas a Sir Abertawe yn cytuno â gwerthusiad yr Ymgeisydd o sensitifrwydd?</p>
1.6.9.	CNC	<p><b>Gwaddodion NOx ar Safleoedd Ewropeaidd:</b></p> <p>Ym mharagraff 8.7.127 y DA [APP-042], deuir i'r casgliad bod Cyfraniad Proses y Prosiect o ran NOx, ac felly Cyfraniad Proses gwaddodion nitrogen a gwaddodion asidedd nitrogen, yn fach iawn ac mor isel â bod yn sero i bob pwrpas (llai na 0.01 kg/N/ha/yr a llai na 0.01 keqH+/ha/yr, yn ôl eu trefn). O ran pob safle, nid yw'r Cyfraniad Proses yn achosi i Lwythi Critigol gael eu torri.</p> <p>A yw CNC yn cytuno â'r casgliad hwn?</p>
1.6.10.	CNC a'r Ymgeisydd	<p><b>ACA a Safle Ramsar Cors Crymlyn:</b></p> <p>Mae paragraff 8.7.127 y DA [APP-042] yn dod i'r casgliad, yn achos ACA a Safle Ramsar Cors Crymlyn lle mae'r Llwyth Critigol ar gyfer nitrogen ac</p>

ExQ1	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		<p>asid nitrogen eisoes yn cael ei dorri, nad yw dylanwad nitrogen ac asid nitrogen o'r Prosiect ar lefel lle y byddai'n achosi effaith arwyddocaol.</p> <p>A yw CNC yn cytuno â'r casgliad hwn?</p> <p>A fydd Cyfraniad Proses ychwanegol y Prosiect yn rhwystro amcanion cadwraeth yr ACA?</p>
1.6.11.	CNC	<p><b>ACA Bae Caerfyrddin ac ACA a Safle Ramsar Cilfach Tywyn:</b></p> <p>Mae paragraffau 8.7.129 ac 8.7.130 y DA [APP-042] yn dod i'r casgliad y bydd effeithiau gweithredol allyriadau hydrolegol ac awyrol ar y 2 safle uchod yn ddibwys.</p> <p>A yw CNC yn cytuno â'r casgliad hwn?</p>
1.6.12.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Monitro am 5 Mlynedd:</b></p> <p>Mae paragraffau 8.8.36 i 8.8.38 y DA [APP-042] yn datgan ymrwymiad i "<i>bum mlynedd o leiaf o fonitro</i>".</p> <p>A all yr Ymgeisydd gyfeirio at bwynt yn y DCO drafft [APP-014] lle mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei sicrhau?</p>
1.6.13.	Yr Ymgeisydd	<p><b>NSER [APP-066]:</b></p> <p>Mae paragraff 1.1.15 yn datgan bod safle'r Prosiect oddeutu 30.66Ha. Mae</p>

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
		<p>paragraff 1.25 y Datganiad o Resymau [APP-010] yn datgan mai Tir y Gorchymyn yw 35.52Ha.</p> <p>A all yr Ymgeisydd esbonio'r gwahaniaeth hwn?</p>
1.6.14.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Dyfarniad Coedwig Ashdown:</b></p> <p>Ym mharagraff 1.3.21 yr NSER [APP-066], mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio at y dyfarniad hwn h.y. Wealden District Council v Secretary of State for Communities and Local Government and others, 2017 [EWHC] 351 <a href="http://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Admin/2017/351.html">http://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Admin/2017/351.html</a></p> <p>A ellir rhoi copi o'r dyfarniad hwn i'r Archwiliad?</p>
1.6.15.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Tabl 1-6 NSER [APP-066]:</b></p> <p>Nid yw pellteroedd y Safleoedd Ewropeaidd i'r stac yn Nhabl 1-6 yn cydfynd â Thablau 1-3, 1-4 ac 1-5 [APP-066]?</p>
1.6.16.	Yr Ymgeisydd	<p><b>NSER [APP-066]:</b></p> <p>A all yr Ymgeisydd esbonio sut bod y penderfyniad i eithrio Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (LSE) o lwch adeiladu wedi ystyried yr achos gwaethaf o ran graddau'r effeithiau – gan gynnwys graddau disgwylidig symudiadau cerbydau?</p>
1.6.17.	Yr Ymgeisydd	<p><b>NSER [APP-066]:</b></p>

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
		A all yr Ymgeisydd ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r 'newid tymor byr enwol' disgwyliedig a oedd wedi arwain at y penderfyniad i eithrio LSE posibl o allyriadau traffig o'r asesiad sgrinio?
1.6.18.	CNC a Dinas a Sir Abertawe	<p><b>NSER [APP-066]:</b></p> <p>A yw CNC a Dinas a Sir Abertawe yn hapus:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) bod yr ardal astudiaeth 10km yn dderbyniol;</li> <li>b) bod y safleoedd a'r nodweddion cywir wedi cael eu hamlygu;</li> <li>c) bod yr LSE posibl priodol wedi cael eu hamlygu;</li> <li>ch) eu bod yn cytuno ar gwmpas a methodoleg yr asesiad ar y cyd; ac</li> <li>d) eu bod yn cytuno â chasgliadau'r NSER?</li> </ul>
1.6.19.	Yr Ymgeisydd	<p><b>NSER [APP-066]:</b></p> <p>A all yr Ymgeisydd ailedrych ar y matricesau a sicrhau bod y troednodiadau'n gywir a, lle y bo'n berthnasol, bod cyfeiriadau penodol yn cael eu rhoi i dystiolaeth ategol yn y DA neu'r CEMP drafft?</p>
1.6.20.	CNC	<p><b>NSER [APP-066]:</b></p> <p>Yw CNC yn hapus bod yr Ymgeisydd wedi amlygu'r nodweddion cymhwys cywir ar gyfer y safleoedd a gyflwynir yn y Matricsau?</p>
1.6.21.	Yr Ymgeisydd	<p><b>NSER [APP-066]:</b></p> <p>A all yr Ymgeisydd esbonio:</p>

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
		a) p'un a fydd mesurau monitro'n cael eu manylu yn y CEMP, SWMP, neu eu sicrhau fel arall, er enghraifft yn y DCO; b) diben y mesurau hyn; a c) manylion unrhyw fesurau adferol/unioni arfaethedig pe byddai monitro'n dangos bod eu hangen?
1.6.22.	Yr Ymgeisydd	<b>NSER [APP-066]:</b>  A all yr Ymgeisydd ddarparu fersiwn Word o'r NSER a'r Matricsau i'r Archwiliad?
<b>1.7.</b>	<b>Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) Drafft</b>	
	Roedd Atodiad G i'r Llythyr Rheol 6 [12/09/18] yn hysbysu am Wrandawriad Mater Penodol (ISH) ar y DCO drafft a gynhaliwyd ddydd Mercher 10/10/18 (ISH1). Roedd Atodiad H i'r llythyr hwnnw'n amlinellu atodlen materion a chwestiynau i'w Harchwilio yn ISH1. Mae amserlen yr Archwiliad yn nodi bod materion i'w codi ar lafar mewn ymateb i'r rhestr honno i'w cyflwyno yn ysgrifenedig erbyn <b>Terfyn Amser 1: Dydd Gwener 9 Tachwedd 2018</b> . Mae sylwadau ar unrhyw faterion a nodir yn y cyflwyniadau hynny i'w darparu erbyn <b>Terfyn Amser 2: Dydd Gwener 30 Tachwedd 2018</b> . Nid oes angen i Bartion â Buddiant a gymerodd ran yn ISH1 ac sydd o'r farn bod eu materion eisoes wedi cael eu dwyn i sylw'r AA ailadrodd eu materion mewn ymateb i'r cwestiwn isod. Mae'n fwyaf priodol ymateb i faterion a amlinellir yng nghyflwyniadau ysgrifenedig Terfyn Amser [1] sy'n codi o ISH1 mewn sylwadau Terfyn Amser [2] yn hytrach nag mewn ymatebion i'r cwestiynau canlynol, sy'n ceisio cyfleu materion na chodwyd yn ISH1.	
1.7.1.	Yr Ymgeisydd	<b>Drafftio'r DCO [APP-014]:</b>  A all yr Ymgeisydd gadarnhau bod y DCO drafft a gyflwynwyd:

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>wedi cael ei ddrafftio gan ddefnyddio'r templed Offeryn Statudol (OS)<sup>1</sup>;</li> <li>yn dilyn canllawiau ac arfer gorau ar gyfer drafftio OS (er enghraifft, osgoi "dylai") yn unol â fersiwn ddiweddaraf y <u>canllawiau</u> gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol; ac</li> <li>yn dilyn canllawiau arfer gorau drafftio<sup>2</sup> gan yr Arolygiaeth Gynllunio a'r Adrannau yn Nodyn Cyngor 15 – <u>Drafftio gorchmynion caniatâd datblygu</u></li> </ul> <p>A all yr Ymgeisydd sicrhau, os bydd fersiynau diwygiedig o'r DCO yn cael eu cyflwyno wrth i'r Archwiliad symud ymlaen, y bydd yr holl gyfeiriadau mewnol a throednodiadau deddfwriaethol yn cael eu gwirio a'u diweddarau fel y bo'r angen?</p>
1.7.2.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Gwaith Rhagarweiniol a Ganiateir:</b></p> <p>Ym mharagraff 3.7.3 y DA [APP-042], mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio at "waith rhagarweiniol a ganiateir".</p> <p>A all yr Ymgeisydd nodi ble mae'r gwaith hwn yn cael ei ddiffinio yn y DCO drafft [APP-42]?</p>

<sup>1</sup> Mae pob OS yn dilyn yr un fformat, y mae Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus yn cynhyrchu templed arbennig ar ei gyfer.

<sup>2</sup> Os yw'n berthnasol, dylai'r Ymgeisydd gyfiawnhau pam na ddilynwyd Nodyn Cyngor 15.

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
1.7.3.	Dinas a Sir Abertawe	<p><b>Erthygl Cychwyn 2:</b></p> <p>Mae'r diffiniad o 'gychwyn' yn Erthygl 2 yn eithrio ymchwiliadau at ddiben asesu cyflwr y tir (gan gynnwys ymchwiliadau sy'n angenrheidiol i gyflawni gofynion 14 (ymchwiliad safle), 15 (arolwg adnoddau mwynau) ac 16 (cynllun rheoli mawn)), derbyn a gosod peiriannau ac offer adeiladu, codi unrhyw gaeadle dros dro, arddangos hysbysiadau neu hysbysebion safle dros dro.</p> <p>A yw Dinas a Sir Abertawe o'r farn ei bod hi'n briodol caniatáu i'r gwaith hwn gael ei gwblhau'n gynnar (heb sbarduno'r gofynion a osodir yn Atodlen 2 y Gorchymyn)?</p>
1.7.4.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Ymgwymerwr a Buddiant y Gorchymyn:</b></p> <p>Diffinnir yr "ymgymerwr" yn Erthygl 2 fel APL, sef cefnogwr y cynllun, ac unrhyw un sy'n cael budd o'r Gorchymyn yn unol ag Erthyglau 6 a 7.</p> <p>Yr arfer presennol o ran DCO yw cyfyngu'r diffiniad i ymgwymerwr penodol heb gyfeirio at 'unrhyw unigolyn arall ...' Dylai buddiant y gorchymyn (Erthygl 6) a throsglwyddo buddiant (Erthygl 7) fod yn benodol i ymgwymerwyr a enwyd hefyd.</p> <p>A all yr Ymgeisydd ailddrafftio yn unol â'r arfer diweddar?</p>
1.7.5.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Erthygl 17 (Awdurdod i arolygu'r tir ac ymchwilio iddo):</b></p>

ExQ1	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		<p>Mae hyn yn caniatáu i'r ymgymwrw arolygu a/neu ymchwilio i'r tir, gan gynnwys dod ag offer ar y tir a gwneud tyllau treialu. Mae'r grym yn ddarostyngedig i nifer o amodau, gan gynnwys gofyniad i roi 14 diwrnod o rybudd a thalu iawndal. Mae'r grym yn ymestyn i dir "<i>y gallai'r datblygiad a awdurdodwyd effeithio arno</i>" oherwydd ei bod hi'n bosibl y gallai fod angen cynnal arolygon ar y cyfryw dir i fonitro effeithiau'r datblygiad a awdurdodwyd (er enghraifft, monitro sŵn wrth dderbynyddion preswyl [APP-042]).</p> <p>a) A all yr Ymgeisydd nodi'n eglur pa dir y gallai'r Erthygl hon ymdrin ag ef?</p> <p>Mae'r Erthygl hefyd yn berthnasol i is-adran (6), adran 13 Deddf Prynu Gorfodol 1965 (gwrthod rhoi meddiant i awdurdod caffael), gan felly ddarparu dull gorfodi (trwy gyfrwng gwarant) lle y gwrthodir mynediad i dir o dan yr erthygl. Mae'r Ymgeisydd yn dadlau yr ystyrir bod hyn yn angenrheidiol fel nad oes oedi o ran gweithredu'r datblygiad a awdurdodwyd.</p> <p>b) A all yr Ymgeisydd ymhelaethu ymhellach ar y cyfiawnhad hwn dros ddefnyddio Adran 13 Deddf 1965?</p>
1.7.6.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Erthygl 35 Torri neu Docio Coed a Gwaredu Perthi:</b></p> <p>A all yr Ymgeisydd gadarnhau nad yw'r berth a amlygir yn y Cynllun Perthi [APP-055] yn "berth bwysig"?</p>
1.7.7.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Erthygl 40 Ardystio Cynlluniau:</b></p>



ExQ1	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		<p>Erthygl 40 (<i>Ardystio cynlluniau ac ati</i>) sy'n darparu ar gyfer cyflwyno'r Llyfr Cyfeirio, Datganiad Egwyddorion Dylunio, DA, Cynlluniau Tir, Hawliau Tramwy, Cynlluniau Strydoedd a Mynediad, Cynlluniau Gwaith, Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu Amlinellol, Strategaeth Lliniaru Tirwedd ac Ecolegol Amlinellol, Strategaeth Oleuo Amlinellol, Cynllun Teithio Staff Adeiladu Amlinellol, Cynllun Rheoli Dŵr Wyneb Amlinellol, Strategaeth Ddraenio Amlinellol, Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd a Chynllun Perthi y cyfeirir atynt yn y Gorchymyn drafft [APP-014] i'r Ysgrifennydd Gwladol fel y gellir ardystio eu bod yn gopïau cywir.</p> <p>Mae gofynion 16, 18-22 yn disgrifio 6 chynllun arall y cyfeirir atynt yn y DCO drafft.</p> <p>A fydd unrhyw un o'r cynlluniau hyn ar gael ar ffurf amlinellol cyn diwedd yr Archwiliad?</p>
1.7.8.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Pontydd Dros Dro:</b></p> <p>Dywed paragraff 3.7.7 y DA [APP-042]:</p> <p><i>"Bydd pontydd dros dro dros y Brif Bibell Ddŵr a'r System Trosglwyddo Nwy Genedlaethol yn ystod y cyfnod adeiladu, sef, yn fwyaf tebygol, pontydd beili dros dro neu strwythurau tebyg."</i></p> <p>A all yr Ymgeisydd nodi ble mae'r gwaith hwn yn cael ei ddiffinio yn Atodlen 1 y DCO drafft [APP-014]?</p>

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
1.7.9.	Dinas a Sir Abertawe	<p><b>Gofyniad 3:</b></p> <p>Mae Gofyniad 3 yn sicrhau'r cynigion lliniaru tirwedd a amlinellir yn y DA [APP-042] trwy gyflwyno cynllun tirweddu ysgrifenedig (sy'n cynnwys manylion penodol yn ymwneud â gwaith tirweddu caled a meddal) mewn perthynas â gwaith rhif 1 a 2 i'w gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio perthnasol. Mae'n rhaid i'r cynllun tirweddu a gyflwynir i'w gymeradwyo gyd-fynd yn sylweddol â'r strategaeth lliniaru tirwedd ac ecolegol amlinellol a atodir i'r DA yn Atodiad 3.4 [APP-036].</p> <p>A yw Dinas a Sir Abertawe yn fodlon bod geiriad Gofyniad 3 yn sicrhau'n ddigonol trefniadau monitro a fydd yn rychwantu 25 mlynedd yn seiliedig ar yr ymrwymiad ym mharagraff 4.7.1 Atodiad 3.4 [APP-036]?</p>
1.7.10.	Dinas a Sir Abertawe a'r Awdurdod Glo	<p><b>Gofyniad 15:</b></p> <p>Mae Gofyniad 15 yn sicrhau bod arolwg adnoddau mwynau'n cael ei ddarparu pe byddai'r adroddiad ymchwiliad safle'n dangos bod mwynau'n bresennol. Mae'n rhaid i'r arolwg adnoddau mwynau gael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio perthnasol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig.</p> <p>A yw Dinas a Sir Abertawe yn fodlon bod y gofyniad hwn yn cydymffurfio â pholisi cynllunio lleol mabwysiedig h.y. Polisi R2 y Cynllun Datblygu Unedol?</p>
1.7.11.	Dinas a Sir Abertawe	<p><b>Gofyniad 25:</b></p> <p>Mae Gofyniad 25 yn mynnu, ar ôl y comisiynu terfynol, bod rhaid i sŵn y</p>

<b>ExQ1</b>	<b>Cwestiwn i:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
		<p>gellir ei briodoli i weithrediad gwaith rhif 1 gael ei gyfyngu i'r lefelau sŵn a amlinellir yn Nhabl 3. Mae'n rhaid i fesuriadau sŵn yn y pedwar lleoliad a amlygwyd, neu'n agos iddynt, gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio perthnasol cyn diwedd tri mis yn dechrau ar ddyddiad y comisiynu terfynol (gweler Gofyniad 24). Mae'n rhaid i unrhyw waith adferol gael ei gynnal yn unol â'r rhaglen ar gyfer gweithredu ac mae'n rhaid i'r mesuriadau sŵn gael eu hailadrodd a'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio perthnasol i'w cymeradwyo.</p> <p>A yw Dinas a Sir Abertawe yn fodlon ar eiriad y Gofyniad hwn?</p>
1.7.12.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Gofyniad 28:</b></p> <p>Mae Gofyniad 28 yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd o ran manylion y datblygiad a amlinellir yng Ngofyniad 2.</p> <p>Pa fathau o ddiwygiadau y bwriedir i'r gofyniad hwn ymdrin â nhw?</p>
1.7.13.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Gofyniad 28(2):</b></p> <p>Mae Gofyniad 28(2) yn datgan y byddai'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i ddiwygiadau sy'n <i>'annhebygol o arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol newydd neu sylweddol wahanol'</i>.</p> <p>A ellir mynegi hyn yn fwy sicr trwy newid <i>'annhebygol o'</i> i <i>'ni fydd yn'</i>?</p>
1.7.14.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Darpariaethau Amddiffynnol Atodlen 11:</b></p>

ExQ1	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		<p>Mae <i>Atodlen 11 (Darpariaethau Amddiffynnol)</i> yn cynnwys Darpariaethau Amddiffynnol drafft. Mae Rhan 1 Atodlen 11 yn amddiffyn deiliaid trwydded drydan, trawsgludwyr nwy ac ymgymerwyr carthffosiaeth (heblaw am y Grid Cenedlaethol a amddiffynnir gan Ran 3, Western Power Distribution (De Cymru) plc a amddiffynnir gan Ran 4, Dŵr Cymru Cyfyngedig a amddiffynnir gan Ran 5, Abergelli Solar Limited a amddiffynnir gan Ran 6 a Wales and West Utilities Limited a amddiffynnir gan Ran 7). Mae Rhan 2 yn amddiffyn gweithredwyr rhwydweithiau cod cyfathrebu electronig.</p> <p>Rhowch ddiweddariad ar statws presennol y Darpariaethau Amddiffynnol hyn.</p>
1.7.15.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Lled Ymarferol Cysylltiad Nwy:</b></p> <p>Mae llwybr y Biblinell a'i lled yn amrywio i ystyried nodweddion naturiol ac o wneuthuriad dyn, ond yn gyffredinol mae'n darparu lled ymarferol dros dro o 50 i 320 metr ar gyfer adeiladu [APP-010] ym mharagraff 1.28.</p> <p>A all yr Ymgeisydd esbonio pam mae angen cynnwys holl dir y Gorchymyn ar gyfer y cysylltiad nwy a ddangosir ar y Cynlluniau Tir – Dalen 1 o 2 [APP-057]?</p>
1.7.16.	Yr Ymgeisydd	<p><b>Terfyn Amser 5 – DCO a Ffefrir yr Ymgeisydd:</b></p>

ExQ1	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
